

# Hysbysiad Preifatrwydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol

## Cyflwyniad

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn asiantaeth weithredol, a noddir gan y [Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol](#) a [Llywodraeth Cymru](#). Gwerthoedd sylfaenol yr Arolygiaeth Gynllunio yw ein hymrwymiad i fod yn agored, yn dryloyw ac yn ddiduedd wrth gynnal ein busnes ac rydym wedi ymrwmo i gyhoeddi'n rhagweithiol y wybodaeth a gedwir gennym.

Mae gennym ddyletswyddau a chyfrifoldebau o dan [Ddeddf Cynllunio 2008](#) a'i rheolau gweithdrefnol mewn perthynas â phrosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio'r mathau o wybodaeth bersonol y gallwn eu casglu amdanoch chi pan fyddwch yn rhyngweithio â ni, yr hyn a wnawn â'ch gwybodaeth bersonol a pham rydym yn cyhoeddi eich gwybodaeth bersonol ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Hefyd, mae'n esbonio pa hawliau sydd gennych a sut y byddwn yn diogelu eich data, a'i gadw'n ddiogel.

## Pa fath o wybodaeth bersonol ydym ni'n ei chasglu?

Pan fyddwch yn cymryd rhan yn y broses gydsynio ar gyfer seilwaith cenedlaethol neu'n cysylltu â ni am gyngor, rydym yn casglu gwybodaeth bersonol fel eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a'ch barn ar geisiadau ar gyfer prosiectau seilwaith cenedlaethol. Os byddwch yn dewis dweud wrthym am faterion sensitif, er enghraifft eich iechyd, crefydd neu farn wleidyddol, byddwn yn casglu'r wybodaeth bersonol sensitif hon hefyd.

## Cwcis

Gallwch ddysgu rhagor am gwcis [yma](#).

## Pa wybodaeth bersonol a gyhoeddir gennym ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol?

Caiff cofnod o'r holl gyngor a roddir gennym ni, gan gynnwys enw'r person sy'n gofyn am y cyngor, ei gyhoeddi yn ein [Cofrestr cyngor](#).

Rydym yn cyhoeddi eich sylwadau ond yn hepgor rhai manylion personol penodol – rhifau ffôn, cyfeiriadau, cyfeiriadau e-bost, llofnodion a gwybodaeth bersonol sensitif – cyn gwneud hynny.

Hefyd, rydym yn cyhoeddi adroddiadau ymgynghori, ceisiadau am ganiatâd datblygu a dogfennau eraill a baratowyd gan ymgeiswyr ac eraill i alluogi cyfranogiad y cyhoedd yn y broses gydsynio ar gyfer seilwaith cenedlaethol. Yn ogystal, rydym yn cyhoeddi adroddiadau argymhellion yr arolygwyr wedi i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol wneud y penderfyniad terfynol ar brosiect. Nid ydym yn hepgor unrhyw wybodaeth bersonol mewn dogfennau a lunnir gan ymgeiswyr lle byddai hyn yn rhwystro archwiliad effeithiol o gais ar gyfer prosiect seilwaith cenedlaethol (megis enwau a chyfeiriadau yn y Llyfr Cyfeirio).

## Pam ydym ni'n cyhoeddi eich gwybodaeth bersonol a pha sail gyfreithiol ydym ni'n dibynnu arni ar gyfer gwneud hynny?

Mae gennym swyddogaethau a dyletswyddau statudol o dan [Ddeddf Cynllunio 2008](#) a'i rheolau gweithdrefnol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau bod dogfennau a gwybodaeth benodol, a all gynnwys gwybodaeth bersonol, ar gael i'r cyhoedd. Gwnawn hyn trwy eu cyhoeddi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Mae prosesu eich gwybodaeth bersonol fel hyn yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd, h.y. archwiliad effeithiol prosiectau seilwaith cenedlaethol. Pan fyddwn yn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol sensitif, gwneir hyn mewn modd tebyg, oherwydd mae'n angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd.

### **Sut ydym ni'n diogelu eich gwybodaeth bersonol?**

Caiff eich data eu cadw ar weinyddion diogel.

### **Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol?**

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am 20 mlynedd ac yn ei hadolygu yn unol â'n polisi cadw dogfennau. Fodd bynnag, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth bersonol ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol dim ond cyn belled ag y bo'n angenrheidiol i alluogi archwiliad effeithiol ceisiadau ar gyfer prosiectau seilwaith cenedlaethol.

### **Â phwy rydym yn rhannu eich gwybodaeth bersonol?**

Rydym yn darparu'ch gwybodaeth i adran berthnasol y llywodraeth sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar y prosiectau a gaiff eu trin gennym:

- Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
- Yr Adran Drafnidiaeth
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
- Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio gwasanaethau cwmnïau eraill i brosesu data ar ein rhan mewn perthynas â cheisiadau, megis ar gyfer lletya cwmwl ein gwefan ac argraffu a dosbarthu ein gohebiaeth gopi caled. Mae contractau ar waith i sicrhau y caiff eich gwybodaeth bersonol ei phrosesu fel y cyfarwyddir gennym yn unig a bod mesurau diogelwch priodol yn cael eu gweithredu.

### **Eich hawliau**

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu nifer o hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol. Yn nodweddiadol, wrth brosesu gwybodaeth bersonol ar sail cyflawni tasg gyhoeddus (megis pan fyddwn yn gweinyddu ac yn gwneud argymhellion ar geisiadau cynllunio Seilwaith Cenedlaethol), dyma'r hawliau sy'n berthnasol:

- yr hawl i gael gwybodaeth
- yr hawl i fynediad
- yr hawl i gywiro
- yr hawl i wrthwynebu, ac
- yr hawl i gyfyngu ar brosesu.

Nid ydym yn gwneud penderfyniadau neu'n proffilio'n awtomataidd. Gan fod ein prosesu yn seiliedig ar gyflawni tasg gyhoeddus, nid yw'r hawl i gludadwyedd data a'r hawl i ddileu yn berthnasol. Hefyd, mae'n bosibl na fydd eich hawliau eraill yn absoliwt ac oherwydd nad yw ein prosesu yn dibynnu ar ganiatâd, ni fydd tynnu hyn yn ôl ar eich rhan yn berthnasol, fel arfer.

### **Trosglwyddo data dramor**

Mae'r wybodaeth a gyhoeddwn ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ar gael ledled y byd. Nid ydym fel arall yn trosglwyddo'ch gwybodaeth y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## Rhagor o wybodaeth ac unrhyw gwestiynau?

Gobeithiwn y bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn o gymorth wrth osod allan y ffordd rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau nad ydynt wedi'u cynnwys, cysylltwch â Rheolwr Data'r Arolygiaeth Gynllunio yn [dataprotection@pins.gsi.gov.uk](mailto:dataprotection@pins.gsi.gov.uk).

Y Rheolwr Data  
Yr Arolygiaeth Gynllunio  
Temple Quay House  
Temple Quay  
Bryste  
BS1 6PN  
Ffôn: 0303 444 5000

Fel arall, gallwch gysylltu'n uniongyrchol â Swyddog Diogelu Data ein noddwr – gwnewch hi'n glir bod eich ymholiad yn ymwneud â'r Arolygiaeth Gynllunio – yn [data.protection@communities.gsi.gov.uk](mailto:data.protection@communities.gsi.gov.uk).

Y Swyddog Diogelu Data  
Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol  
2 Marsham Street  
Llundain  
SW1P 4DF  
Ffôn: 0303 444 0000

Os ydych yn parhau i fod yn anhapus gyda'n hymateb neu os ydych yn teimlo nad yw eich data wedi'u trin yn briodol, mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â nhw hefyd am gyngor annibynnol ynghylch diogelu data, preifatrwydd a rhannu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru  
Yr Ail Lawr  
Tŷ Churchill  
Ffordd Churchill  
Caerdydd  
DF10 2HH  
Ffôn: 029 2067 8400  
Ffacs: 029 2067 8399  
E-bost: [wales@ico.org.uk](mailto:wales@ico.org.uk)

Neu:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF  
Ffôn: 0303 123 1113 (y gyfradd leol)  
01625 545745 (os yw'n well gennych ddefnyddio cyfradd genedlaethol)  
+44 1625 545 700 (os ydych yn ffonio o du allan i'r DU)  
Ffacs: 01625 524510  
<https://ico.org.uk/global/contact-us/>

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd. Diweddarwyd yr hysbysiad hwn ddiwethaf ar 5 Mehefin 2018.